

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod Anghysbell a gynhaliwyd ar 2 Mai, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorwyr P. Drake, W.A. Hennessy a J.M. Norman (oherwydd amgylchiadau annisgwyl, nid oedd y Cynghorydd M.J.G. Morgan yn gallu bod yn bresennol ac felly mynychodd y Cynghorydd Hennessy yn lle hynny fel yr Aelod Wrth Gefn).

Hefyd yn bresennol: N. Jarjis (Ymgeisydd), W. Rathore (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd), W. Lane (Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth (Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir – Cyngor Bro Morganwg)), y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cyngor Bro Morganwg), M.E. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Bro Morganwg) ac R. Price (Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bro Morganwg).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. ”

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Caniatáu Trwydded Safle – Dominos, 15-17 Heol Holton, Y Barri, Cf63 4ha. (AT) –

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a oedd yn ceisio darparu lluniaeth hwyr y nos o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 11.00pm a 5.00am.

Mynychwyd y gwrandawriad gan yr Ymgeisydd a'i gynrychiolydd, Walaiti Rathore.

Amlinellodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad i'r Is-bwyllgor a oedd wedi'i ddosbarthu'n flaenorol ynghyd â'r sylwadau ychwanegol.

Derbyniwyd sylwadau gan y Cynghorydd Dr. Johnson a Chyngor Tref y Barri, a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Gwnaeth yr Awdurdodau Cyfrifol, Heddlu De Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd, sylwadau perthnasol a chytuno ar amodau i'w cynnwys ar y drwydded gyda'r Ymgeisydd ac felly ni wrthwynebwyd y cais am drwydded.

Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd:

Dylid caniatáu'r cais fel y gwnaed cais amdano, gyda'r amodau yn yr atodlen weithredu ac amodau cytunedig yr Heddlu ac Adran Iechyd yr Amgylchedd. Y materion a nodwyd fel y man cychwyn oedd nad oedd y cais ar gyfer adloniant rheoledig neu werthu alcohol. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr Ymgeisydd yn gyflogwr masnachfaint aml-safle, yn cyflogi 1,400 o gyflogeion. Roedd yn sefydliad trefnus a phroffesiynol. Roedd ganddyn nhw sawl safle mewn lleoedd tebyg a oedd yn gweithredu'n hwyr ac yn oriau mân y bore. Roedd ganddyn nhw weithdrefnau mewnol lle maent yn cau blaen y siop ac roedd y gyrwyr yn cael cyfarwyddyd i weithio mewn ffordd dawel a phroffesiynol.

Roedd yr Awdurdodau Cyfrifol, yn gyntaf yr Heddlu, wedi dod i gytundeb. Roedd yr Heddlu yn gyffredinol yn gefnogi'r cais ac yn gyffredinol yn hapus gyda'r amodau a wirfoddolwyd. Roedden nhw wedi gofyn i'r geiriad gael ei addasu, a gosod amod ychwanegol. Roedden nhw'n fodlon na fyddai'r amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio.

Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor eu bod wedi dod i gytundeb ag Iechyd yr Amgylchedd sef y prif Awdurdod a oedd yn delio â sŵn, ac nad oedd ganddynt unrhyw faterion a godwyd gan y Bobl Eraill. Nid oedd unrhyw gwynion wedi'u cofnodi yn erbyn y safle hwn.

Cysylltwyd â'r Cynghorydd Dr. Johnson er mwyn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymgeisydd, fodd bynnag, roedd eisiau gwrandawriad cyhoeddus, a'r anhawster oedd nad oedd tystiolaeth i gefnogi'r sylwadau ganddo. Disgrifiwyd y sylwadau fel byr, generig a dyfaliadol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth wirioneddol o unrhyw gwynion wedi'i chyfeirio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o emosiwn lleol ar y cais yn amlwg ac nad oedd un honiad i gyfiawnhau peidio â rhoi'r drwydded. Cyfeiriwyd at y gyfraith achosion berthnasol ac ailadroddwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth i beidio â rhoi'r drwydded. Dywedwyd bod y penderfyniad cynllunio yn "waith torri a gludo". Roedd cyfraith achosion a chanllawiau'n nodi bod polisi ac ystyriaethau cynllunio yn ddwy gyfundrefn ar wahân. Gallai cynllunio a thrwyddedu fod yn wahanol iawn.

Roedd yn bwysig nodi nad oedd y tîm Cynllunio wedi gwneud unrhyw sylwadau a byddai'n cymryd y farn y byddent yn cymryd rhan yn y cam cynllunio. Nhw oedd y brif ffynhonnell cyngor mewn materion sy'n ymwneud â chynllunio.

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy a oedd siopau eraill Dominos ar agor tan 5.00am. Cadarnhawyd bod tua 300 o safleoedd yn gweithredu, ac roedd yr

Ymgeisydd hwn yn gweithredu tua 14 ac roedd llawer yn gweithredu tan 5.00am heb broblem ac gydag unrhyw weithdrefnau angenrheidiol wedi'u rhoi ar waith i liniaru unrhyw bryderon a godwyd wedyn.

Gofynnwyd i'r Ymgeisydd / eu cynrychiolydd am sŵn a allai effeithio ar adeiladau preswyl cyfagos a beth fyddent yn ei wneud i atal hyn. Roedd y lleoliad wrth ymyl ardal breswyl / stryd gyda llawer o blant / teuluoedd arno. Cynghorwyd bod angen dull caniatool ac y byddai unrhyw broblemau yn cael eu trin drwy adolygiad. Byddai'r amodau yn dod yn rhan o'r awdurdodiad. Ni ellid ystyried dyfalu am yr hyn a allai ddigwydd.

Pobl Eraill

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei fod yn teimlo bod yr Ymgeisydd yn amau ei wrthwynebiad a'i fod yn Aelod lleol, yn breswlydd ac yn ddefnyddiwr rheolaidd o'r siop. Ei bryderon oedd y drwydded hwyrach yn cael ei chynnig a lliniaru i atal problemau. Dywedodd ei fod yn ddiolchgar i'r Ymgeisydd estyn allan ato ond yn teimlo bod cofnod tystiolaeth yn bwysig pe bai pryderon yn codi yn y dyfodol. Mae'r tafarndai lleol a'r tafarndai tecawê lleol yn gyffredinol yn cau tua hanner nos. Y prif bryder oedd y sŵn a gynhyrchwyd gan gerbydau a sgysiau sy'n digwydd yn hwyr yn y nos. Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am y cerbydau sy'n derbyn dosbarthiadau o flaen yr eiddo ac nid o'r maes parcio cefn. Yr ail broblem oedd y llwybr trwy stryd breswyl y gellid ei ddefnyddio fel "llwybr llygod" a byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn traffig cerbydau.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Dr. Johnson am ei sylwadau gan Gynrychiolydd yr Ymgeisydd. Nid oedd y parcio ar y blaen fel dewis arall yn broblem. Roedd gan yr Ymgeisydd record dda iawn ac os oedd pryderon y gallai pobl gysylltu â'r Ymgeisydd yn uniongyrchol. Dywedodd nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw broblemau. Dywedodd na ellid gosod amodau ar y briffordd gan fod y briffordd yn briffordd. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson y dylid delio â'r cwynion mewn modd ffurfiol. Roedd hefyd yn croesawu'r ffaith bod y mater wedi'i godi ynglŷn â'r potensial am sŵn sy'n gysylltiedig â chyflenwi yn hwyr yn y nos a phwysigrwyd lliniaru neu 'ddiogelu'r materion a nodwyd o gwmpas hyn.

Ychwanegodd y Swyddog Trwyddedu fod trafodaethau wedi bod rhwng yr Ymgeisydd ac Iechyd yr Amgylchedd ac roedd yr amodau y cytunwyd arnynt wedi'u cynnwys yn y wybodaeth atodol a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Roedd elfen o liniaru yn y rhain, megis mynd i'r afael â sŵn arall a achosir gan y gweithgareddau hyn a diffodd peiriannau lle roedd y gyrwyr dosbarthu wedi'u parcio / yn aros. Esboniodd y Swyddog i'r Pwyllgor pe bai'r problemau yn digwydd pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi yn ddiweddarach, yna gellid defnyddio'r Ddeddf Trwyddedu i gymryd dull 'graddol' er mwyn ymgysylltu â'r busnes a rhoi unrhyw fesurau lliniaru neu orfodi ar waith i fynd i'r afael â phryderon preswylwyr ynghylch sŵn, ac ati. Roedd yna hefyd opsiynau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd y gellid eu defnyddio, os oes angen hefyd (gan gynnwys pwerau niwsans statudol).

Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod y term 'diogelu at y dyfodol' wedi'i godi ond ni allai hyn fod yn ystyriaeth wrth drwyddedu'r safle, gan ystyried y drefn drwyddedu.

Nodwyd, gan ei fod yn gais newydd, roedd gan yr Ymgeisydd hawl i'w ystyried ar ei rinweddau ei hun a'i fod yn gyfundrefn ganiataol. Dywedwyd felly fod y sylwadau yn ddiffygiol. Roedd gan yr Ymgeisydd hanes llwyddiannus ac roedd yn cyfeirio at bolisi'r Cyngor ei hun.

Dylai'r Awdurdod cyfrifol gefnogi'r cais, ac roedd y cais wedi'i gynllunio i ddechrau gweithrediad y safle.

Cadarnhawyd y byddai'r gyrrwyr dosbarthu yn defnyddio eu ceir eu hunain neu debyg ac ni fyddai'r rhain yn gerbydau masnachol, math fan dosbarthu a ddefnyddir.

Heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb sylwadau pellach gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Cyfreithiol y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti gan yr Awdurdod Trwyddedu o fewn pum diwrnod gwaith.

Yn dilyn hyn, bu'r Ymgeisydd, ei gynrychiolydd, y Cynghorydd Dr Johnson a'r Swyddog Trwyddedu a oedd yn bresennol wedi datgysylltu o'r cyfarfod o bell, fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu'r cais yn breifat gyda chefnogaeth Swyddog Cyfreithiol y Cyngor. Gwnaeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedyn

PENDERFYNWYD – Y dylid caniatáu'r cais fel y'i gwneir, ynghyd â'r amodau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdodau Cyfrifol sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad a'r amodau yn yr amserlen weithredu.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a wnaeth gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Drwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn benodol yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.